**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:

| | | |
|---|---|---|
| **Thema 1**<br><br>**Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**<br><br>- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu<br>- Y blynyddoedd cynnar<br>- Addysg statudol<br>- Addysg ôl-orfodol<br>- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau | ←<br><br>→ | **Thema 2**<br><br>**Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**<br><br>- Y gweithle<br>- Gwasanaethau<br>- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg |
| ↓ ↑ | | ↓ ↑ |
| **Thema 3**<br><br>**Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**<br><br>- Cymuned a'r economi<br>- Diwylliant a'r cyfryngau<br>- Cymru a'r byd ehangach<br>- Technoleg ddigidol<br>- Seilwaith ieithyddol<br>- Cynllunio ieithyddol<br>- Gwerthuso ac ymchwil | | |

Bydd ein Fframwaith a'n cynllun gweithredu yn gwella mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth ym mhob rhan o Gymru ar gyfer pobl anabl. Bydd pobl anabl sy'n byw mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i

gymryd rhan mewn bywyd gwaith yn eu cymunedau eu hunain, i ffynnu ac i helpu i sicrhau bod eu cymunedau'n parhau'n weithgar ac yn fywiog.

Drwy weithio'n agos gyda swyddogion polisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, bydd ein cynllun gweithredu yn cefnogi pobl anabl sy'n siarad Cymraeg i gael gafael ar dechnoleg a gwybodaeth ar-lein yn yr iaith o'u dewis.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd cymunedol eraill. Nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol y Gymraeg yn benodol, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i'w gwahodd i ymgynghori â ni. Ar sail eu mewnbwn, bydd hyn yn cyfrannu at gamau gweithredu a nodau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cynllun, er y bydd nodau a chamau gweithredu ar draws nifer o'r meysydd polisi gwahanol yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg.

Rydym yn bwriadu cydweithio â sefydliadau Cymraeg eu hiaith i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chasglu adborth gwerthfawr. Bydd y dull hwn yn galluogi pobl anabl, a allai fod wedi methu â bod yn bresennol yn ein sesiynau gweithgor, i adolygu dogfennau ymgynghori a rhannu eu persbectif. Bydd hefyd yn rhoi mewnwelediadau uniongyrchol i ni gan bobl anabl sy'n siarad Cymraeg yn ardaloedd gwledig Cymru.

- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rydym ni wedi mynd ati'n bwrpasol i drefnu cyfarfodydd gyda phobl ifanc anabl o wahanol gefndiroedd cyfrwng Cymraeg i gasglu eu hadborth ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Nid oes unrhyw effaith negyddol amlwg ar y Gymraeg wedi'i nodi.

- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau[1] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i sicrhau bod meddalwedd gynorthwyol Gymraeg briodol, gan gynnwys technoleg adnabod llais a synthesis dwyieithog, ar gael yn rhwydd i wella llesiant pobl anabl. Drwy ei Chynllun Gweithredu Technoleg Iaith

[1] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg a ddefnyddir.

Gymraeg[2], mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu adnodd technegol arloesol i gefnogi siaradwyr Cymraeg sydd mewn perygl o golli eu llais oherwydd cyflyrau iechyd fel Clefyd Niwronau Motor neu ganser y gwddf. Mae'r rhaglen 'Lleisiwr' yn caniatáu i unigolion 'fancio' eu lleisiau a chreu llais synthetig personol.

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio fel sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant Cymraeg?

Bydd y ddogfen ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg ddarllen a deall yr wybodaeth yn eu mamiaith.

Bydd aelod sy'n siarad Cymraeg o'r tasglu ar gael yn ystod cyfarfodydd ymgynghori i gyflwyno'r manylion a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau drwy ddewis iaith y cyfranogwyr.

Bydd camau gweithredu'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio mwy o'u Cymraeg mewn adnoddau lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei chefnogi i'r graddau y mae angen iddi fod, e.e. mewn meddalwedd benodol ar gyfer pobl anabl.

Gan mai asesiad effaith drafft yw hwn, bydd gennym gyfle i'w fireinio drwy ymgorffori adborth o'r ymgynghoriad, yn enwedig gan bobl anabl sy'n siarad Cymraeg, er mwyn gwella'r gwerthusiad cyffredinol.

Bydd adborth a gwybodaeth y bwrdd cynghori allanol, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd a'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn fecanwaith ar gyfer canmol darpariaeth ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

[2] Cynllun gweithredu technoleg y Gymraeg 2018 i 2024 | LLYW.CYMRU